

## ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2013/14

<b>Cynghorydd:</b> Annwen Hughes		<b>Grŵp:</b> Plaid Cymru																	
<b>Ward:</b> Llanbedr																			
<b>Bwriad yr adroddiad blynyddol:</b> Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.																			
<b>Rol a chyfrifoldebau:</b> Gweithio yn y gymuned ac hefyd cyd-weithio gyda'r Cyngor Cymuned lleol i wneud yn siŵr fod buddiannau'r gymuned yn cael eu diogelu. Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Cyngor yr wyf wedi cael fy mhenodi arnynt.																			
<b>Gweithgareddau etholaethol:</b> <b>Pentref Llanbedr</b> Cael llinellau melyn dwbwl wedi eu gosod mewn safleoedd yn y pentref oedd yn creu problemau trafnidiaeth yn enwedig yn ystod tymor yr ymwelwyr. Hefyd wedi llwyddo i gael drych ger groesffordd ystad dai Bryn Deiliog er mwyn diogelu gyrrwyr sydd yn ceisio cael mynediad i'r A496. Ar ôl derbyn pryderon sawl etholwr am y goryrru sydd yn cael ei wneud wrth ddod i mewn i bentref Llanbedr a Llanfair, ac o ganlyniad gosod mesurydd traffig 'rwyf wedi gallu sicrhau fod GanBwyll yn ymweld â phentref Llanbedr a Llanfair yn gyson.																			
<b>Maes Awyr Llanbedr</b> Cafwyd cyfarfod buddiol gyda rhai o Gyfarwyddwyr maes awyr Llanbedr yn yr Hydref lle gwelwyd cynlluniau o'r datblygiadau sydd ar droed ac o ganlyniad i hyn 'rwyf wedi dechrau ar y gwaith o bwysu ar yr Awdurdodau i fuddsoddi yn y rhwydwaith ffordd ym mhentref Llanbedr.																			
<b>Stormydd mis Ionawr</b> Yn dilyn y tywydd garw a gafwyd ddechrau'r flwyddyn hon lle gwelwyd rhan o'r clawdd llanw yn torri yn Llanbedr gan ddfrodi sawl acer o dir amaethyddol ynghyd â daliad Morfa Mawr sydd yn berchen i Gyngor Gwynedd, cafodd cyfarfod ei drefnu gennyf ganol mis Ionawr gyda'r ffermwyr oedd wedi cael eu heffeithio ynghyd â'r Cyng. Ioan Thomas a Gareth Roberts, Mr. Meilir Rhun Hughes o'r Adran Eiddo a Mr. Dafydd Jarrett o'r swyddfa NFU leol a oedd yn bresennol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, er mwyn gallu symud ymlaen yn sydyn i greu ffordd at y clawdd llanw cafodd cytundeb ei wneud bod gwastraff llechi yn cael ei gario o hen chwarel Llanfair yn hytrach na Blaenau Ffestiniog tuag at wneud y ffordd hon.																			
<b>Mentrau a gweithgareddau eraill:</b>																			
<b>Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:</b>																			
<table border="1"><thead><tr><th>PWYLLGOR</th><th>PRESENNOL</th></tr></thead><tbody><tr><td>Y Cyngor</td><td>4</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Cymunedau</td><td>3</td></tr><tr><td>Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol</td><td>3</td></tr><tr><td>Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog</td><td>1</td></tr><tr><td>Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol</td><td>1</td></tr><tr><td>Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Cymunedau</td><td>2</td></tr><tr><td>Fforwm Ardal Meirionnydd</td><td>4</td></tr></tbody></table> Canran Presenoldeb: 78%				PWYLLGOR	PRESENNOL	Y Cyngor	4	Pwyllgor Craffu Cymunedau	3	Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol	3	Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog	1	Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	1	Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Cymunedau	2	Fforwm Ardal Meirionnydd	4
PWYLLGOR	PRESENNOL																		
Y Cyngor	4																		
Pwyllgor Craffu Cymunedau	3																		
Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol	3																		
Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog	1																		
Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	1																		
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Cymunedau	2																		
Fforwm Ardal Meirionnydd	4																		
<b>Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:</b>  Fforwm Ailgylchu yng Ngwynedd Seminar Strategaeth Ariannol ac Arbedion Gweithdy Aelodau Etholedig mewn ymgysylltu a'r cyhoedd Seminar Ysgolion Meirionnydd Sesiwn Wybodaeth Economi Gwynedd																			
<b>Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:</b>  Ysgol Gynradd Llanbedr (Llywodraethwr)		<b>Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:</b>  Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanbedr (wedi mynychu pob																	

Ysgol Ardudwy (Llywodraethwr) Rheilffordd y Cambrian Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig	un) Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanfair (wedi mynychu pob un) Grŵp Rhandeiliad Gwella Mynediad i Faes Awyr Llanbedr
--	---

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

<b>Corfforaethol</b>
Panel Rhiant Corfforaethol
Anghenion Addysgol Arbennig

  

<b>Ychwanegol</b>
Gwybodaeth am Bobl - Eich Cyfrifoldeb Chi

Cyfanswm nifer o oriau: 5.5